

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 4 Hydref, 2021
drwy gyfrwng Zoom**

Presennol: Dwynwen (DP) (**Cadeirydd**) Iolo Roberts (IPR), Eryl (EO), Gwyn (GW), Steve (SW), Iona (IE), Iolo ap Gwynn (IAG), Dewi (DH), Richard (RR)

Ymddiheuriadau: Eirwen, Gareth, Raymond

	<p>Adroddodd DP fod nifer o faterion oedd angen sylw'r pwyllgor cyn y Cyfarfod Blyneddol wedi codi ers cyfarfod mis Medi</p>	
1.	<p><u>CYFRIF BANC Y CLWB</u></p> <p>Adroddodd DAP, yn dilyn penderfyniad Banc y Clwb (HSBC) i ddechrau codi tâl o £60 y flwyddyn a 40c yr un am drafodion, er y byddai trosglwyddiadau electroneg yn aros yn rhad ac am ddim, bod y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi wedi ei hawdurdodi i edrych ar y posibilrwydd o symud y cyfrif i fanc arall. Fodd bynnag roedd nifer o ystyriaethau wedi codi ers y cyfarfod hwnnw.</p> <p>Y prif fater oedd bod y Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP) wedi penderfynu codi eu tanysgrifiadau blyneddol i aelodau clybiau o 1af Ebrill 2022 a hefyd wedi datgan y byddai eu tanysgrifiadau yn codi hefo chwyddiant ar y 1af o Ionawr yn flynyddol. Byddai'n adrodd ar oblygiadau hyn ar dâl aelodaeth y Clwb yn ddiweddarach yn y cyfarfod.</p> <p>Mae mwyafrif yr aelodau yn talu eu haelodaeth drwy orchymyn banc ac o brofiad roedd y broses o gael aelodau unigol i newid y gorchymyn gyda'u banciau yn gallu bod yn broses hir. Gyda taliadau i'r CMP yn codi yn flynyddol yn y dyfodol mae'n debygol y byddai'n rhaid codi tâl aelodaeth y Clwb yn fwy rheolaidd hefyd. Yn yr hinsawdd yma byddai'n well gallu derbyn taliadau aelodau drwy ddebyd uniongyrchol ond roedd y banc yn gyndyn o gynnig y gwasaneth yma i glybiau. Roedd y CMP wedi datgan eu bod yn fodlon rhoi arweiniad i glybiau am hyn ac wedi trefnu cyfarfod rhithiol yn fuan ym mis Tachwedd a byddai DAP yn ei fynychu</p> <p>Argymhellai felly yn y sefyllfa hon y byddai'n well gohirio gwneud unrhyw benderfyniad ar symud cyfrif banc y Clwb i fanc arall am y tro ac y byddai'n ceisio sicrhau y byddai mwyafrif trafodion ariannol y Clwb yn cael eu gwneud yn electroneg fel mai ond y taliad blyneddol o £60 y byddai'r Clwb yn ei wynbeu am ddefnyddio'r cyfrif banc.</p> <p>Yn y drafodaeth ar hyn nodwyd fod posibilrwydd y byddai banciau eraill yn dilyn yr un llwybr â HSBC a chyflwyno taliadau ar eu cyfrifon. Hefyd bod pwysau sylweddol yn cael ei roi ar HSBC ynglŷn â'r penderfyniad a allasai beri iddynt newid eu meddwl. Roedd y sefyllfa yn un ansicr felly. Roedd consensws hefyd mai gwneud a derbyn taliadau drwy ddebyd uniongyrchol a throsglwyddiadau electroneg oedd y modd i geisio goresgyn hyn.</p> <p>Cytunwyd y dylid peidio symud ymlaen i newid cyfrif banc y Clwb am y tro a nodi y bydd y Trysorydd yn adrodd yn ôl ar hyn i'r Pwyllgor maes o law.</p>	
2.	<u>TÂL AELODAETH</u>	

Adroddodd DAP y penderfynwyd yn y cyfarfod blaenorol na ddylid cynyddu'r tâl aelodaeth am y tro. Fodd bynnag ers hynny penderfynodd y CMP godi eu tâl aelodaeth o 1af Ebrill 2022 i £21 ac y byddai'n codi yn flynyddol gyda chwyddiant o 1af Ionawr 2023 ymlaen. £20 yw tâl aelodaeth presennol y Clwb a £20.25 yn cael ei dalu i'r CMP ar gyfer pob aelod. Mae mwyafrif taliadau'r Clwb i'r CMP yn cael eu gwneud ym mis Ionawr ac felly byddai taliadau Ionawr 2022 dal ar y lefel gyfredol.

Credai y byddai'n ddoeth i'r Clwb gadw balans o oddeutu £5k wrth gefn i sicrhau bod digon o arian i'w gynnal. Ar hyn o bryd mae'r Clwb yn ysgwyddo colled o 0.25c ar bob taliad a wneir dros aelodau i'r CMP. Byddai'r swm yma yn codi pan godir tâl CMP ac felly ni fyddai'r sefyllfa yn un gynhaliadwy. Mae posibilrwydd y byddai'r Clwb yn wynebu gwariant sylweddol wrth brynu diffibriliwr a fyddai hefyd yn lleihau'r balans. Argymhellai felly fod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cyfarfod Blynyddol bod tâl aelodaeth y Clwb yn cael ei gynyddu.

Cytunwyd y dylid argymhell i'r Cyfarfod Blynyddol fod tâl aelodaeth y Clwb yn codi i £25 o 1af Ionawr 2023. Byddai hyn yn golygu y gellid cwrdd â'r taliadau i'r CMP am gyfnod yn hytrach na chynyddu'r tâl aelodaeth yn rheolaidd a byddai hefyd yn help i'r Clwb ail-adeiladu ei gyfrifon yn y tymor byr.

Nodwyd y byddai'r penderfyniad uchod hefyd yn rhoi cyfnod o sefydlogrwydd o ran y tâl aelodaeth tra byddid yn edrych i mewn i'r posibiliad o newid banc y Clwb a symud drosodd i dderbyn taliadau drwy ddebyd uniongyrchol os yn bosib fel y crybillwyd yn yr eitem flaenorol.

3. **DIFFIBRILWYR**

Adroddodd EO fod Tomos Hughes, Swyddog gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi cysylltu ag ef i ddweud bod unigolyn a chysylltiad â Gareth Pierce yn dymuno rhoi diffibriliwr i'r Clwb fel rhodd er cof am Gareth. Roedd y teclyn dan sylw yn un ysgafn wedi ei lunio i gael ei gario ac yn cael ei ddefnyddio gan dîmau achub. Roedd cost yr offer dan sylw oddeutu £2000.

Roedd cytundeb y dylai'r Clwb dderbyn y rhodd garedig ond os felly, dylid hefyd cael offer cyffelyb ar gyfer criw'r De.

Cytunwyd

- i. gofyn i EO hysbysu Mr Hughes fod y Clwb am dderbyn y cynnig caredig o ddiffibriliwr symudol ond ein bod hefyd yn dymuno prynu un ychwanegol fel y byddai un ar gael ar gyfer teithiau'r De a'r Gogledd ac mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd trefnu eu prynu
- ii. gofyn i Mr Hughes wneud trefniadau i brynu'r offer dan sylw a nodi y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Clwb gan Mr Hughes (ac o bosib y sawl sydd yn rhoddi un ohonynt) yn y Cyfarfod Blynyddol ar 13eg Tachwedd
- iii. nodi bod y Pwyllgor am sicrhau bod yr offer yma cael ei ddefnyddio. Byddai disgwyl a chyfrifoldeb ar arweinyddion teithiau olynol i gydweithio er mwyn sicrhau bod y peiriannau hyn yn cael eu trosglwyddo o un arweinydd i'r llall fel eu bod ar gael ar gyfer yr holl deithiau. Dylid cysylltu ag EO os cyfyd problemau.
- iii. dylid addasu'r canllawiau i arweinyddion teithiau i sicrhau fod y cyfrifoldeb yma yn glir ynddynt
- iii. estyn gwahoddiad i Mr Hughes a'r rhoddwr (os yn fodlon dod) i'r cinio blynyddol ar y 13eg o Dachwedd.

<p>4.</p>	<p><u>RHODD ER COF AM GARETH PIERCE</u></p> <p>Adroddwyd bod teulu Gareth wedi penderfynu y dylai'r Urdd a'r Clwb dderbyn unrhyw gyfraniadau er cof am Gareth ac y casglwyd hyd yma swm o £890 fel cyfraniadau i'r Clwb. Adroddodd EO ei fod wedi cael trafodaethau gyda'r teulu. Oherwydd diddordeb Gareth mewn hyrwyddo gweithgareddau awyr agored ymhlith pobl ifanc eu dymuniad oedd ar i'r Clwb gydweithredu gyda'r Urdd i wireddu hyn. Syniad arall oedd yn apelio at y teulu oedd i'r arian fynd tuag at gyhoeddi detholiad o'r cerddi ar fynyddoedd y bu Gareth yn eu casglu dros y blynyddoedd.</p> <p>O safbwynt yr Urdd y syniadau dan sylw oedd creu prentisiaeth i bobl ifanc oedd yn dymuno dilyn gyrfa yn y maes awyr agored neu gynnal penwythnos o wethgareddau i bobl ifanc dan arweiniad yr Urdd.</p> <p>Roedd hefyd wedi cael gair â Robert Rhys o Brifysgol Abertawe a oedd wedi taro golwg dros y casgliad o gerddi ac o'r farn bod digon o ddeunydd i gyhoeddi casgliad ohonynt mewn cyfrol.</p> <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> i. gofyn i EO gael gair pellach gyda'r teulu yn eu hysbysu tra bod y Pwyllgor o'r farn y byddai cyhoeddi detholiad o'r cerddi a gasglwyd gan Gareth yn ffordd deilwng a hirdymor o'i goffâu, eu bod yn barod iawn i gydymffurfio â dymuniadau'r teulu os y byddai'n well ganddynt i'r arian fynd i gynorthwyo'r Urdd ii. bod EO yn cael gair â swyddogion yr Urdd i weld pa mor ddibynnol oeddynt ar unrhyw gyfraniad gan y Clwb i sicrhau fod unrhyw weithgaredd er cof am Gareth yn digwydd iii. bod EO yn cael trafodaethau pellach gyda Robert Rhys am y posibilrwydd o gyhoeddi cyfrol ac i IAG gael gair â Gwasg yr Lolfa i weld beth yn union fyddai'r trefniadau/disgwyliadau o safbwynt cwmni cyhoeddi iv. derbyn adroddiad pellach ar y mater maes o law. 	
<p>5.</p>	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2021</u></p> <p>Adroddwyd gan IPR bod trefniadau mewn lle bellach fel y gellid anfon manylion i'r aelodau. Yn dilyn y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor roedd wedi cadarnhau hefo'r gwesty fod ganddynt gysylltiad WIFI ac y byddai'r aelodau felly yn cael cynnig i ymuno â'r cyfarfod drwy Zoom os y dymunent.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth ac yn sgil y drafodaeth flaenorol am y rhodd o ddiffibriliwr, dylid cychwyn y cyfarfod am 6pm a byddai'r Clwb yn derbyn y rhodd cyn y cinio a fyddai'n cychwyn am 7.30pm</p>	
<p>6.</p>	<p><u>PECYNAU CYMORTH CYNTAF</u></p> <p>Gofynnwyd gan DH a oedd arweinyddion teithiau yn gallu derbyn pecynau cymorth cyntaf gan y Clwb. Roedd ar ddeall bod rhai pecynau ar gael yn y Gogledd.</p> <p>Yn y drafodaeth roedd consensws, yn arbennig yng ngoleuni'r penderfyniad blaenorol y byddai arweinyddion teithiau yn cario y diffibriliwr, na ddylid gorlwytho yr hyn y disgwyliad i arweinyddion ei gario ac y dylai aelodau unigol fod yn gyfrifol am eu hoffer</p>	

cymorth cynyaf eu hunain.

Cytunwyd y dylid anfon neges i aelodau drwy e-bost yn nodi bod cyfrifoldeb arnynt gario offer cymorth cyntaf addas yn eu sachau fel mater o drefn.

7. TAITH I'R ALBAN

Cododd EO y posibilrwydd o ail-ddechrau'r arferiad o drefnu wythnos yn yr Alban ym mis Chwefror. Bu'r ymweliad olaf yn 2019 pan arhoswyd mewn gwesty yn Crianlarich. Gan fod ymateb cadarnhaol wedi bod gan yr aelodau a arhosodd yno, roedd wedi cysylltu â'r un gwesty i weld pa delerau y byddent yn eu cynnig ar gyfer Chwefror 2022. Roedd y telerau yn cymharu'n ffafriol â'r rhai mewn hosteli.

Gofynnodd am farn y Pwyllgor parthed trefnu gweithgaredd o'r fath ar gyfer 2022.

Cytunwyd

- i. ei bod yn briodol i'r Clwb ysytyried trefnu'r math yma o weithgaredd ar gyfer 2022 a gofyn i EO gysylltu â Gareth Roberts, trefnydd yr wythnos yn 2019, ynglŷn â gwneud y trefniadau
- ii. gofyn i EO holi'r gwesty beth fyddai'r sefyllfa pe byddai sefyllfa Covid 19 yn newid a bod angen canslo unrhyw drefniant
- iii. hefyd gofyn i'r gwesty a fyddai'n bosib i aelodau dderbyn yr un telerau os yn archebu lle yno yn unigol yn hytrach na bod y Clwb yn archebu dros bawb.